# Crynodeb o Bolisi Gwirfoddoli Guide Dogs ar gyfer gwirfoddolwyr

Mae'r ddogfen hon yn rhoi crynodeb byr o rai o egwyddorion allweddol ein Polisi Gwirfoddoli a'n hymagwedd gyffredinol at wirfoddoli:

- Mae gwirfoddolwyr yn rhan **annatod** o'n sefydliad. Mae eich cyfraniad yn hanfodol i gyflawni ein pwrpas i helpu pobl â cholled golwg i fyw'r bywyd a ddewisant.
- Rydym am i chi deimlo eich bod **yn perthyn**, rydym yn ymdrechu i feithrin diwylliant **cynhwysol** ac rydym yn croesawu ystod **amrywiol** o bobl i wirfoddoli gyda ni.
- Rydym wedi ymrwymo i **ddiogelu** ac ymwreiddio arferion diogelu cadarn ym mhopeth a wnawn, a disgwyliwn ichi rannu'r ymrwymiad hwn.
- Rydym yn cymryd ein dyletswydd gofal dros **ddiogelwch a lles** pawb sy'n dod i gysylltiad â'n helusen o ddifrif, a byddwn yn cymryd pob cam rhesymol i atal niwed.
- Rydym yn ymrwymo i ddarparu **cyfnod sefydlu a hyfforddiant** o ansawdd uchel i chi sy'n eich croesawu'n gynnes i'n cymuned wirfoddoli ac sy'n eich paratoi ar gyfer y rolau rydych yn eu cyflawni.
- Rydym yn addo eich **cefnogi** i gyflawni eich rôl yn effeithiol, datrys unrhyw broblemau sy'n codi mewn modd teg ac amserol a darparu **rheolwr gwirfoddolwyr** penodol i chi.
- Credwn na ddylech fod ar eich colled o ganlyniad i'ch gweithgaredd gwirfoddol ac rydym yn ymrwymo i ad-dalu unrhyw **gostau** rhesymol y cytunwyd arnynt ymlaen llaw.
- Rydym yn ymrwymo i **gydnabod** eich cyfraniad mewn amrywiaeth o ffyrdd, ar lefel genedlaethol a lleol.
- Pan ddaw'r amser i chi symud ymlaen o wirfoddoli, rydym yn ymrwymo i gydnabod eich cyfraniad, casglu eich adborth a'i ddefnyddio i lywio ein **gwelliant parhaus**.

Diwedd y ddogfen.